Cydymdeimlad a Chofion

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth Mr Lloyd Williams (Llansannan) ddechrau'r wythnos. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod – Mrs Janice Williams, ac â'r merched a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.

Parhawn i gofio am Merfyn Hughes (Llansannan) sy'n derbyn gofal yng Nghanolfan Walton, ac anfonwn ein cofion hefyd at Emlyn Davies (Llansannan) fu'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ond sydd bellach wedi cael dod adref. Cofiwn am sawl un arall sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd ac eraill sy'n parhau i wella yn dilyn llawdriniaethau. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw gan weddïo y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt ac y daw adferiad iechyd llwyr a buan iddynt.

Casgliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd (EBC)

Mae cyfanswm o £480.00 wedi ei anfon o Fro Aled tuag at gasgliad blynyddol chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru er mwyn cefnogi gwaith cenhadol yn lleol a thramor. Diolch am eich cyfraniadau eto eleni.

Cyrsiau Coleg y Bala

Dyma rai o'r cyrsiau sydd wedi eu trefnu yng Ngholeg y Bala dros y misoedd nesaf:

- **Miri Mai 12-14 o Fai :** i blant 8-11 oed.
- **Penwythnos Chwaraeon 20-21 o Fai :** i flynyddoedd uwchradd 7-10.
- **Diwrnod Blasu 10 o Fehefin :** i blant 7-11 oed.
- **Disglair 23-24 o Fehefin :** i ferched o bob oed (15+).

Medrwch archebu lle ar gyfer y cyrsiau uchod ar y wefan: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg neu trwy ffonio 01678 520565.

Os nad yw'n bosibl i chi archebu arlein neu os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, plîs cysylltwch â colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565 iddyn nhw bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi. (Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu ac sy'n byw o fewn dalgylch yr Ofalaeth hon.)

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 07814 660291
Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (3ydd), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 23 Ebrill 2023

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll!

Tybed sawl gwaith ydych chi wedi clywed neu ddweud yr ymadrodd enwog hwn? Ond fel cymaint o eiriau cyfarwydd eraill, ydych chi wedi meddwl o ddifrif am ystyr y Fendith?

Geiriau'r Apostol Paul ydynt ar ddiwedd ei Ail Lythyr at y Corinthiaid. Mae hi'n weddi eithriadol o addas wrth ffarwelio â chyd Gristnogion gan ei bod yn gofyn i'r Duw tragwyddol, sy'n Dad, Mab ac Ysbryd Glân, barhau i fendithio'i bobl mewn ffordd arbennig. Dyma grynodeb wych o'r hyn sy'n cael ei brofi gan y rhai sy'n ymddiried yng Nghrist.

Gras ein Harglwydd Iesu Grist yw'r rhodd sy'n golygu fod y pechadur edifeiriol yn derbyn maddeuant a chymod â'r Duw y gwrthryfelodd yn ei erbyn. Disgleiriodd y gras hwnnw trwy fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu – y cyfan wedi digwydd er mwyn achub pobl nad oedd yn haeddu unrhyw ddaioni gan yr Arglwydd. *'Oherwydd yr ydych yn gwybod am ras ein Harglwydd Iesu Grist, fel y bu iddo, ac yntau'n gyfoethog, ddod yn dlawd drosoch chwi, er mwyn i chwi ddod yn gyfoethog trwy ei dlodi ef.' (2 Corinthiaid 8:9)*

Wrth roi ein hunain i'r Arglwydd Iesu, cawn dderbyn cariad diderfyn ein Creawdwr, a thrwy fyfyrio'n gyson ar Air Duw, gallwn ryfeddu gyda'r emynydd Iago Trichrug:

Fe'n carodd cyn ein bod,
a'i briod Fab a roes,
yn ôl amodau hen y llw,
i farw ar y groes.

Ac yn olaf, cymdeithas yr Ysbryd Glân. Yr Ysbryd sy'n byw yn y Cristion gan ei uno mewn ffydd â'r Arglwydd Iesu a'i eni o'r newydd. Ond nid ymwelydd dros dro yw'r Ysbryd gan Ei fod yn parhau i weinidogaethu ynom a thrwom gan ein harwain a'n cymell i garu ac ufuddhau i Dduw. Golyga cymdeithas yr Ysbryd fod Duw ar waith ynom, ond hefyd bod uniad melys wedi'i greu gan yr Ysbryd rhwng Cristnogion a'i gilydd – rhai sydd wedi'u galw i fod yn blant i Dduw, ac yn frodyr a chwiorydd i'w gilydd.

(parhad trosodd)

(parhad)

Gan mai hwn yw fy myfyrdod olaf fel gweinidog Bro Aled, pa neges well wrth ffarwelio na geiriau'r Apostol Paul? Diolch o galon i chi am eich caredigrwydd tuag atom fel teulu, a'ch holl weddïau dros y blynyddoedd. Pan ysgrifennais fy myfyrdod cyntaf ar gyfer Llais Aled dechrau Hydref 2009, soniais am yr ychydig fisoedd (!) o'm blaen i ddod i adnabod pobl ac ardal newydd. Bryd hynny, fy ngobaith oedd y byddem yn dod i adnabod yr Arglwydd yn well gan annog ein gilydd i ddibynnu arno Ef. Bron i bedair mlynedd ar ddeg yn ddiweddarach, ar drothwy'r bennod nesaf, yr un yw fy nyhead drosoch.

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Ebrill 23ain

Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth wedi bod yn bresennol mewn un oedfa ymhob capel yn yr Ofalaeth naill ai'r Sul diwethaf (16eg) neu heddiw (23ain) i ofyn trwy bleidlais ddirgel, a ydym o blaid galw Gweinidog i fugeilio eglwysi'r Ofalaeth, a phleidlais ddirgel arall yn/wedi cael ei chynnal er mwyn dewis UN aelod (nad yw yn flaenor nac yn ddiacon) i gynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol (fydd yn dod yn weithredol os bydd mwyafrif aelodau'r Ofalaeth o blaid galw gweinidog). Cewch enwi y nifer a fynnwch, ond yr aelod fydd wedi derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau fydd yn cynrychioli eich eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol, ynghyd â blaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, a chynrychiolwyr o'r Henaduriaeth a'r Cwrdd Chwarter.

- **Oedfa yn Llannefydd (a phleidleisio)** am 9:30 ac **Oedfa yn Henllan (a phleidleisio)** am 11:00, y ddwy oedfa o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen. (*Bydd pleidlais ddirgel arall hefyd yn cael ei chynnal yn Henllan i ofyn a yw'r eglwys yn bleidiol i ethol mwy o flaenoriaid.)* Bydd Ysgol Sul plant Llannefydd yn cydredeg â'r oedfa ac Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00.
- **Cyfarfod Gweddi (a phleidleisio) yn Llanfair** am 10:00 ac **yng Nghefn Meiriadog (a phleidleisio)** am 10:30 a bydd Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa 'Hadau Gobaith' yn Llansannan** am 11:00 yng nghwmni Mrs Cheryl Williams. Bydd yn rhannu â ni am apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol ym mannau tlotaf y byd. Gwneir casgliad arbennig yn ystod yr oedfa. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Rhodri.

Dydd Mawrth, Ebrill 25ain

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan an 12:00.
- **Cyfarfod Zoom mewn perthynas ag Ymgyrch Dementia gyfeillgar Undeb Annibynwyr Cymru** am 7:30. Bydd y Parch. Hywel Wyn Richards yn ymuno i rannu ei brofiadau o ofalu, a bydd y Parch. Robin Wyn Samuel yn rhannu cynghorion ynglŷn â chynnal oedfaon i rai sy'n byw gyda Dementia. I dderbyn y ddolen gyswllt i ymuno â'r cyfarfod, cysylltwch â Mr John Davies ar johndavies744@btinternet.com / 01745 812239.

Dydd Sul, Ebrill 30ain

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad Rhodri. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Mr Arawn Glyn. Bydd Ysgol Sul yn Groes yn dilyn yr oedfa.
- **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6:00 i ffarwelio ac i ddiolch i Rhodri am ei wasanaeth dros y blynyddoedd inni yma ym Mro Aled. Bydd Aneurin yn agor y Gair, a bydd lluniaeth ysgafn i bawb yn y Festri yn dilyn yr oedfa. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Mawrth, Mai 2il

- **Paned a Sgwrs** yn Festri Llansannan am 1:30 a sesiwn celf a chrefft. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Iau, Mai 4ydd

- **Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd** (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth (SY20 8DT) am 2:00 gydag amser o foliant i ddechrau am 1:45. Y siaradwraig wadd eleni fydd Mrs Nerys Siddall, Rheolwr a Swyddog Addysg Canolfan Byd Mari Jones, Y Bala.

Dydd Gwener, Mai 5ed

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Mai 7fed

- **Bore Bro Aled yng Nghapel Henllan am 10:30 –** oedfa i holl eglwysi'r Ofalaeth o dan arweiniad y Parch. John Robinson.